

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Ynys Môn

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 124A2011



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau'r heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'n flynyddol y rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn o gyllid a bleidleisir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Caiff bron i £5.5 biliwn o'r cyllid hwn ei drosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a grantiau penodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall drwy'r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hyrwyddo gwelliant, fel bod pobl yng Nghymru yn elwa o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymroddedig i nodi a lledaenu arfer da ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gefnogaeth gan Huw Lloyd Jones a John Roberts a chydweithwyr o dan gyfarwyddyd Alan Morris i gynnal yr Asesiad o Welliant ac i gynhyrchu'r adroddiad hwn.

# Cynnwys


**Crynodeb ac argymhellion a chynigion ar gyfer gwella 4**

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â gwendidau yn ei brosesau cynllunio gwelliannau a gwerthuso perfformiad, ond mae gwendidau sy'n dod i'r amlwg mewn rhai gwasanaethau allweddol yn adlewyrchu tanwario blaenorol wrth ddatblygu capasiti rheoli ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaethau 8

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd addawol o ran mynd i'r afael â gwendidau sydd wedi bodoli ers tro byd yn ei brosesau cynllunio gwelliannau a phenderfynu, ond mae llawer o waith i'w wneud eto i sicrhau cynaliadwyedd newid 10

Bu rhai gwelliannau mewn gwasanaethau llinell flaen, ond mae gwendidau mewn gwasanaethau cymdeithasol i blant, a chynnydd araf yn y gwasanaeth ysgolion yn adlewyrchu diffyg buddsoddi yn y gorffennol mewn capasiti rheoli 20

Mae gwelliant sydd wir ei angen mewn Gwasanaethau Plant wedi bod yn araf yn dod i'r amlwg, ond mae agweddau ar ailfodelu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn yn adlewyrchu cynllunio strategol ac arweinyddiaeth effeithiol 21

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, ond mae'r gwasanaeth ysgolion yn wynebu llawer o heriau wrth fynd ati i wella'i gost-effeithiolrwydd 24

Mae gwasanaethau sy'n ceisio hyrwyddo amgylchedd dymunol a chynaliadwy wedi perfformio'n dda, ac mae gwaith i gynyddu ffyniant yr ynys yn dangos addewid 26

Mae adolygiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2010-11 yn cydymffurfio â gofynion statudol gan mwyaf, ond mae diffyg datgan amcanion pendant ar ddechrau'r flwyddyn yn gwneud gwerthuso effeithiol yn amhosibl 28

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 29

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Ynys Môn a Chyngor Sir Ynys Môn 30

**Atodiad 3**
Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn 32

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn 35

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar ba mor dda mae Cynghorau Cymru, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda maent yn cyflwyno'u gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o'r graddau y mae Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) wedi gwella o gymharu â'r llynedd, a'i drefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant pellach. Mae tair prif ran i'r adroddiad, sy'n ymdrin â sut mae'r Cyngor yn mynd ati i gynllunio, cyflawni a gwerthuso gwelliant.

2 Mae adran gyntaf yr adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar flaen-gynllunio'r Cyngor o ran ei waith ym mlwyddyn ariannol 2011-12 a'r trefniadau sydd yn ategu'r gwaith hwnnw. Mae'r ail adran, cyflawni'r gwelliannau, yn edrych yn ôl ar berfformiad y Cyngor mewn meysydd blaenoriaeth yn ystod 2010-11. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi cyfeirio at berfformiad mwy diweddar yn y meysydd hynny megis addysg, ble y mae data cyhoeddedig ar gael. Yn nhrydydd adran yr adroddiad hwn, rydym yn gwneud sylwadau ar y ffordd mae'r Cyngor yn gwerthuso ei berfformiad, gyda phwyslais arbennig ar hunanasesiad y Cyngor o'i waith yn 2010-11.

3 At ei gilydd mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor yn mynd i'r afael â gwendidau yn ei brosesau cynllunio gwelliannau a gwerthuso perfformiad, ond mae gwendidau sy'n dod i'r amlwg mewn rhai gwasanaethau allweddol yn adlewyrchu tanwario blaenorol wrth ddatblygu capasiti rheoli ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaethau.

4 Canfuom fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd addawol o ran mynd i'r afael â gwendidau sydd wedi bodoli ers tro byd yn ei brosesau cynllunio gwelliannau a phenderfynu, ond mae llawer o waith i'w wneud eto i sicrhau cynaliadwyedd newid. Yn benodol, canfuom y canlynol:

- mae'r Comisiynwyr wedi nodi ac wedi dechrau rhoi rhaglen uchelgeisiol o newid ar waith gyda'r nod o sicrhau llywodraethu effeithiol a chynaliadwy;
- cafwyd cychwyn addawol wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau, ond mae'r uwch reolaeth yn dal yn fregus, ac mae'n rhy gynnar i farnu a oes modd cynnal gwelliannau ym mhroses llywodraethu'r Cyngor;
- mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â methiant y Cyngor yn ystod y ddwy flynedd diwethaf i gymeradwyo'i gyfrifon erbyn y terfyn amser gofynnol, ond mae rhagolwg ariannol y Cyngor yn heriol; ac
- mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn annhebygol o gynorthwyo gwelliant parhaus, ac fel gwasanaethau corfforaethol eraill, cânt eu cyfyngu gan faterion yn ymwneud ag adnoddau a chapasiti.

5 Canfuom hefyd y bu rhai gwelliannau mewn gwasanaethau llinell flaen, ond mae gwendidau mewn gwasanaethau cymdeithasol i blant, a chynnydd araf yn y gwasanaeth ysgolion yn adlewyrchu diffyg buddsoddi yn y gorffennol mewn capasiti rheoli.

6 Mewn perthynas â gwasanaethau'r Cyngor i gynorthwyo pobl mewn angen, canfuom mai araf fu'r gwelliant mewn Gwasanaethau Plant. Er y nodwyd yr angen am welliant dros nifer o flynyddoedd, adroddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) na fu unrhyw newid sylweddol er gwell pan gyhoeddodd yr Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad ym mis Hydref 2011. Canfu arolygiad AGGCC o'r prosesau asesu a rheoli gofal ar ddechrau 2011 fod ansawdd llawer o asesiadau'n wael, bod oedi o ran asesu achosion cymhleth a difrifol, ac nid oedd asesiadau'n cael eu cwblhau mewn modd amserol. Fodd bynnag, adroddodd AGGCC hefyd fod agweddau ar ailfodelu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn yn adlewyrchu cynllunio strategol ac arweinyddiaeth effeithiol.

7 Mae gwasanaethau'r Cyngor i helpu pobl ddatblygu yn wynebu nifer o heriau. Er gwaethaf costau uchel a chynyddol y gwasanaeth ysgolion, mae Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) wedi dweud wrthym, o gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru, fod mwy o ysgolion Ynys Môn yn perfformio i lefel islaw'r cyfartaledd yn 2011 na'r disgwyl, a hynny ym mhob cyfnod allweddol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cryfhau ei Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn dilyn arolygiad beirniadol gan Estyn yn 2009.

8 Mae gwasanaethau sy'n ceisio hyrwyddo amgylchedd dymunol a chynaliadwy wedi perfformio'n dda, ac mae gwaith i gynyddu ffyniant yr ynys yn dangos addewid. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno casgliadau gwastraff bwyd ar draws yr ynys, ac mae cyfran y gwastraff sy'n cael ei anfon i'w dirlenwi wedi gostwng ymhellach, a chan fwy na tharged y Cyngor. Lansiwyd y Rhaglen Ynys Ynni ym mis Mehefin 2010, gyda'r nod o osod Ynys Môn fel prif ganolfan ynni carbon isel a chynaliadwy a fydd o fudd i'r ynys a gweddill gogledd Cymru. Mae'r Cyngor wedi amcangyfrif hefyd fod gwerth twristiaeth i economi'r ynys wedi cynyddu chwech y cant yn ystod 2010-11.

9 Yn olaf, mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein barnau ar asesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad bod adolygiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2010-11 yn cydymffurfio â gofynion statudol gan amlaf, ond mae diffyg datgan amcanion pendant ar ddechrau'r flwyddyn yn gwneud gwerthuso effeithiol yn amhosibl.

# Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

| Argymhelliad | |
|---|---|
| **A1** | Er mwyn cefnogi cynaliadwyedd adferiad y Cyngor, dylai Gweinidogion Cymru:<br>• hyrwyddo trosglwyddo pŵer penderfynu yn raddol o'r Comisiynwyr i'r Pwyllgor Gwaith cysgodol; ac<br>• wrth i'r broses ar gyfer trosglwyddo pŵer penderfynu fynd rhagddi, ailddiffinio rôl Comisiynwyr fel eu bod yn monitro cynnydd y Cyngor, tra'n cadw'r pŵer i ymyrryd fel bo angen. |

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | Dylai'r Cyngor wneud trefniadau sy'n galluogi'r Prif Weithredwr i ganolbwyntio ar:<br>• arwain a datblygu'r Uwch Grŵp Arweinyddiaeth;<br>• rheoli aelodau unigol yr Uwch Grŵp Arweinyddiaeth, eu dwyn i gyfrif am gyflawni agweddau penodol ar agenda'r Cyngor ar gyfer gwella a llywodraethu; a<br>• chynrychioli'r Cyngor yn allanol. |
| **C2** | Dylai'r Cyngor ddatblygu rôl rheolwyr canol fel eu bod<br>• gyda'i gilydd, yn rhoi adborth i uwch reolwyr am weithredu newid; ac<br>• yn unigol a gyda'i gilydd, yn atebol am gyflawni newid yn weithredol yn y gwasanaethau maent yn eu rheoli. |
| **C3** | Dylai'r Cyngor sicrhau capasiti a gallu digonol yn ei wasanaethau cyllid, Adnoddau Dynol a TGCh er mwyn:<br>• cyflawni'r swyddogaethau corfforaethol angenrheidiol sy'n gysylltiedig â phob un o'r gwasanaethau hyn i safonau gofynnol; a<br>• darparu cymorth i wasanaethau eraill y Cyngor yn unol â safonau cytûn. |
| **C4** | Dylai'r Cyngor:<br>• bennu ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 mewn modd sy'n ei alluogi i benderfynu ac adrodd ar ba un a lwyddwyd i'w cyflawni ai peidio; a<br>• defnyddio'i ddadansoddiad o berfformiad 2011-12 er mwyn dysgu o'r hyn sydd wedi mynd yn dda a phenderfynu ac adrodd ar ba gamau sydd angen iddo'u cymryd i wella. |

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

10 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Ar dudalen 2 cewch esboniad byr o'r hyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

11 O dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd bob blwyddyn ar ba mor dda mae cynghorau Cymru, yr awdurdodau tân ac achub, a'r parciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn cyflwyno'u gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg) ac Asiantaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) (ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol), rydym wedi creu darlun o'r hyn mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut mae'n mynd ati i wneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn amlinellu'r cynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

12 Trwy gydol yr adroddiad, amlinellwn yr hyn mae angen i'r Cyngor ei wneud i wella'i wasanaethau. O gofio'r ystod eang o wasanaethau sy'n cael eu darparu a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol i ni beidio â dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw'n gyhoeddus o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os gwnawn gynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo wneud rhywbeth ynglŷn â hwy, a byddwn yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd.

13 Rydym am gael gwybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â gwendidau yn ei brosesau cynllunio gwelliannau a gwerthuso perfformiad, ond mae gwendidau sy'n dod i'r amlwg mewn rhai gwasanaethau allweddol yn adlewyrchu tanwario blaenorol wrth ddatblygu capasiti rheoli ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaethau

14 Bu newidiadau sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor yn ystod y cyfnod sy'n destun yr adroddiad hwn. Mae ein sylwadau ar berfformiad gwasanaethau (paragraffau 61 i 100) yn cyfeirio'n bennaf at gyflawniadau'r Cyngor yn ystod 2010-11 ac at ei berfformiad yn erbyn yr amcanion gwella a bennodd ar ddechrau'r flwyddyn honno. Bryd hynny, Pwyllgor Gwaith y Cyngor oedd yn gwneud penderfyniadau allweddol, ond roedd staff y Cyngor yn cael eu harwain gan Reolwr Gyfarwyddwr Dros Dro a benodwyd o dan gyfarwyddyd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol bryd hynny. Yn ystod yr ymyrraeth gyntaf hon gan Lywodraeth Cymru, roedd Bwrdd Adfer yn ei le er mwyn monitro cynnydd y Cyngor o ran ymateb i argymhellion Arolygiad o Lywodraethu Corfforaethol 2009.

15 Daeth Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011, i'r casgliad fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael ag argymhellion Arolygiad o Lywodraethu Corfforaethol 2009, ond y byddai rhai o'r cynlluniau'n cymryd amser i'w rhoi ar waith ar draws y Cyngor mewn ffordd a fyddai'n sicrhau na fyddai problemau'r gorffennol yn ailgodi eto ar ôl i'r ymyrraeth ddod i ben.

16 Fodd bynnag, roedd ansefydlogrwydd gwleidyddol wedi dechrau llethu busnes y Cyngor unwaith eto ar ddechrau 2011, gan leihau'r cynnydd yr oedd wedi'i wneud. Ym mis Chwefror, gwnaeth y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) gais y dylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad brys o'r sefyllfa, a bod yr asesiad yn cynnwys cynnydd y Cyngor tuag at fynd i'r afael â'r canfyddiadau yn adroddiad Arolygiad o Lywodraethu Corfforaethol 2009 a photensial y Cyngor i fynd i'r afael â'r canfyddiadau hynny'n llawn, yn derfynol ac yn gynaliadwy erbyn mis Awst 2011. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar yr Ailarolygiad o Lywodraethu Corfforaethol[1] ym mis Mawrth 2011 a daeth i'r casgliad nad oedd ymyrraeth flaenorol Gweinidogion Cymru yn 2009 wedi llwyddo i sicrhau adferiad cynaliadwy o hanes hir y Cyngor o lywodraethu gwan, a bod angen ymyrraeth gadarnach.

17 Ar 16 Mawrth 2011, ymatebodd y Gweinidog i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol drwy gyhoeddi cyfarwyddyd i'r perwyl y byddai rheolaeth o'r Cyngor yn trosglwyddo o'r weithrediaeth etholedig bresennol i Gomisiynwyr a benodwyd ganddo. Ar 31 Mawrth, cyhoeddodd y penodiadau terfynol i'w dîm o bump o Gomisiynwyr profiadol a ddechreuodd eu gwaith ar 1 Ebrill. Defnyddiodd y Gweinidog ei bwerau hefyd i ddynodi Prif Weithredwr Dros Dro newydd, sef Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden y Cyngor yn flaenorol. Daeth y newidiadau hyn â therfyn i'r ansefydlogrwydd gwleidyddol a oedd wedi ysgogi'r Ailarolygiad o Lywodraethu Corfforaethol, ac roedd yn nodi dechrau'r ail ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru.

1 *Arolygiad Arbennig: Ailarolygiad o Lywodraethu Corfforaethol*, Swyddfa Archwilio Cymru, Mawrth 2011. http://www.wao.gov.uk/reportsandpublications/localgovernment_695.asp

18 Mae ein hasesiad o gynllunio'r Cyngor a'i drefniadau ar gyfer cyflawni gwelliant yn cyfeirio hefyd at y cynnydd a wnaed yn ystod 2010-11 o dan yr ymyrraeth gyntaf. Fodd bynnag, mae'r asesiad hefyd yn cyfeirio at y gwaith a wnaed ers 1 Ebrill 2011, pan ddechreuodd yr ail ymyrraeth.

19 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar y prif amcanion y mae'r Cyngor wedi'u gosod iddo'i hun, ac mae'n adeiladu ar adborth ac adroddiadau archwilio cynharach a roddwyd i'r Cyngor. Seiliwyd y casgliadau yn yr adroddiad hwn ar ein gwybodaeth gronnus a'n gwybodaeth ar y cyd, a chanfyddiadau'r gwaith yr ydym wedi rhoi blaenoriaeth iddo i'w wneud eleni.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd addawol o ran mynd i'r afael â gwendidau sydd wedi bodoli ers tro byd yn ei brosesau cynllunio gwelliannau a phenderfynu, ond mae llawer o waith i'w wneud eto i sicrhau cynaliadwyedd newid

20 Ym mis Awst 2011, ysgrifennodd Archwilydd Cyffredinol Cymru at Brif Weithredwr Dros Dro y Cyngor. Roedd y llythyr yn cynnwys:

- crynodeb o gynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â meysydd i'w gwella a'r argymhellion a nodwyd yn Asesiad Corfforaethol 2010, a gyhoeddwyd yn ystod yr ymyrraeth gyntaf ym mis Medi 2010;
- sylwadau byr ar y materion a oedd wedi dod i'r amlwg ers cyhoeddi'r adroddiad ar yr Ailarolygiad o Lywodraethu Corfforaethol ym mis Mawrth 2011, a sylwadau ar sut oedd y Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol; ac
- asesiad yr Archwilydd Cyffredinol o'r graddau mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

21 Roedd y llythyr yn asesu cynnydd y Cyngor mewn perthynas â'r chwe maes ar gyfer eu gwella y nodom yn Asesiad Corfforaethol 2010. Yn gryno:

- roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran gwella mynediad y cyhoedd i'w drafodion trwy gyhoeddi ar ei wefan holl agendâu a phapurau pwyllgorau priodol cyn bob cyfarfod;
- dim ond cynnydd cyfyngedig a wnaed o ran datblygu ymagwedd glir at reoli risg;
- bu rhywfaint o gynnydd o ran nodi dangosyddion a mesurau i'w defnyddio i farnu cynnydd gwasanaethau unigol a rhai o'r rhaglenni yn y Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2011-12;
- roedd llawer i'w wneud o hyd i integreiddio'r defnydd o wybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad yn well wrth gynllunio a monitro cyflwyno gwasanaethau, ac yn benodol, cyflawni'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy;
- roedd gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Fframwaith Gwerthuso Cymhwysedd newydd ar gyfer staff ac i'w weithredu yn yr hydref 2011; ac
- ychydig o gynnydd a wnaed yn y gwaith o hybu adnewyddu democrataidd, er bod hyn yn drywydd allweddol yng nghyfarwyddyd 2011 y Gweinidog.

22 Adroddodd llythyr yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Awst fod y Comisiynwyr, ers dechrau eu gwaith ym mis Ebrill 2011, wedi cwblhau'u hasesiad cychwynnol ac wedi cytuno ar raglen waith, ond ei bod hi'n rhy gynnar i asesu a fyddai'r rhaglen yn cyflawni gwelliannau cynaliadwy neu beidio. Roedd y Cyngor yn symud o'r cyfnod cynllunio i'r cyfnod cyflawni, ac roedd yn rhy gynnar felly i farnu ynglŷn â'i ragolygon gwella.

23 Roedd y llythyr yn crynhoi ein canfyddiadau mewn perthynas â nifer o faterion cyffredin sy'n wynebu cynghorau ledled Cymru. Canfuom y canlynol yn Ynys Môn:

- roedd dull y Cyngor o ymgysylltu â'r cyhoedd wrthi'n cael ei newid ac roedd yn gwella, ond nid oedd ganddo fframwaith cadarn ar waith eto a allai ddangos a oedd ei ymdrechion yn cael effaith gadarnhaol;

- roedd y Cyngor yn cynnal ei ffocws ar fodloni'r heriau ariannol mae'n eu hwynebu ond nid oedd ei drefniadau rheoli a monitro prosiectau yn cefnogi ei Raglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn ddigon da;
- dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn ceisio sefydlu rhai o ofynion sylfaenol gwasanaeth Adnoddau Dynol effeithiol, ond roedd nifer o heriau strategol yn bodoli o hyd os oedd rheolaeth Adnoddau Dynol i gefnogi gwelliant y Cyngor; ac
- roedd craffu wedi gwella, ond roedd cynnydd wedi bod yn anwastad, yn enwedig mewn perthynas â rôl craffu yn dwyn y Weithrediaeth i gyfrif.

Rhown asesiad wedi'i ddiweddaru isod o gynnydd yn rhai o'r meysydd a nodwyd ym mharagraffau 21 i 23.

## Mae'r Comisiynwyr wedi nodi ac yn rhoi rhaglen uchelgeisiol o newid ar waith gyda'r nod o sicrhau llywodraethu effeithiol a chynaliadwy

24 Wrth adolygu cynllun gwella'r Cyngor ar gyfer 2011-12, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad yn ei lythyr ym mis Awst fod Cynllun Busnes Corfforaethol y Cyngor 2011-12 yn bodloni gofynion y Mesur. Fodd bynnag, gan nad yw nifer o amcanion gwella (gweler Atodiad 4) wedi'u cefnogi gan ddeilliannau clir a mesuradwy, bydd yn anodd i'r Cyngor ddangos fod ei flaenoriaethau gwella'n cael eu cyflawni. Mae hyn yn ailadrodd gwendid yn y Cynllun Corfforaethol blaenorol ac mae'n faes a nodwyd gennym fel cynnig ar gyfer gwella yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2010.

25 Roedd y dasg o baratoi Cynllun Busnes Corfforaethol 2011-12 wedi hen ddechrau cyn i'r Comisiynwyr ddechrau eu gwaith ar 1 Ebrill. Roedd y Comisiynwyr yn gallu dylanwadu ar y cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu, yn fras, eu blaenoriaethau a oedd yn dod i'r amlwg. Fodd bynnag, rydym yn derbyn fod materion nad oedd modd eu hosgoi yn ymwneud ag amseru wedi arwain at y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol cyn i'r Comisiynwyr gwblhau'u harfarniad.

26 Y casgliad cyffredinol oedd y bu rhai newidiadau addawol ers mis Ebrill 2011, ond ei bod hi'n rhy gynnar i addasu asesiad cynharach yr Archwilydd Cyffredinol, a amlinellwyd yn adroddiad Ailarolygiad o Lywodraethu Corfforaethol 2011, sef bod y Cyngor yn methu â chydymffurfio â gofynion Rhan 1 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

27 Ers hynny, mae'r Comisiynwyr wedi nodi'n gliriach eu hasesiad cychwynnol o'r hyn roedd angen ei wneud i wella llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Maent wedi seilio'u hasesiad ar ddadansoddiad manwl a thrylwyr o argymhellion blaenorol gan arolygiaethau a rheoleiddwyr a'u harsylwadau eu hunain o'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu. Mae Deg Thema'r Rhaglen Wella a ddilynodd ac a nodir isod, yn agenda uchelgeisiol ac angenrheidiol.

| Deg Thema Rhaglen Wella Comisiynwyr Ynys Môn | |
|---|---|
| 1 | Y berthynas rhwng aelodau a grwpiau gwleidyddol. |
| 2 | Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor. |
| 3 | Y pwyllgor craffu a'i allu i herio a dylanwadu ar benderfyniadau a pholisïau'n effeithiol. |
| 4 | Safonau ymddygiad ac ymarweddiad aelodau a swyddogion. |
| 5 | Trefniant, cydlyniant ac effeithiolrwydd uwch dîm rheoli'r Cyngor. |
| 6 | Datblygu blaenoriaethau strategol gyda mesur sy'n canolbwyntio mwy ar ddeilliannau. |
| 7 | Cyflwyno proses gadarn ar gyfer rheoli perfformiad, prosiectau a risg. |
| 8 | Gwella capasiti, ansawdd a rheolaeth gwasanaethau cymorth corfforaethol. |
| 9 | Ymgysylltu'n llawn â dinasyddion Ynys Môn ac adlewyrchu'u barnau a'u blaenoriaethau. |
| 10 | Datblygu partneriaethau effeithiol rhwng y Cyngor a'r sectorau cyhoeddus a phreifat ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. |

## Cafwyd cychwyn addawol wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau, ond mae'r uwch reolaeth yn parhau'n fregus, ac mae'n rhy gynnar i farnu a oes modd cynnal gwelliannau ym mhroses llywodraethu'r Cyngor

28 Yn eu hail adroddiad ar gynnydd i'r Gweinidog, daeth y Comisiynwyr i'r casgliad '…mae arwyddion cadarnhaol fod y gwelliant wedi cychwyn. Mae llawer iawn o waith i'w wneud eto....i sicrhau adferiad cynaliadwy hirdymor'. Cytunwn â'r hunanasesiad hwn, a rhown sylwadau isod ar gynnydd mewn perthynas â rhai o'r themâu hyn.

**Mae aelodau etholedig yn graddol gynyddu graddau ac effeithiolrwydd y rôl maent yn ei chwarae o fewn y Cyngor, ond nid oes pŵer gwneud penderfyniadau ganddynt eto**

29 Adroddodd yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Awst fod y Comisiynwyr wedi gwneud cynnydd da yn adeiladu perthnasoedd gyda chynghorwyr a rhyngddynt yn dilyn y cyfnod cythryblus yn ystod rhan gyntaf 2011. Roeddent yn dechrau cynnwys cynghorwyr yn y broses benderfynu wrth baratoi i ailgydio yn rheoli'r Cyngor. Mae'r cynnydd hwn wedi parhau. Ers i'r Comisiynwyr ddechrau eu gwaith ym mis Ebrill 2011, mae cynghorwyr, gan fwyaf, wedi gweithredu'n gefnogol ac yn gyfrifol. Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, mae'r Comisiynwyr wedi cychwyn adolygiad o gyfansoddiad y Cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn darparu fframwaith penderfynu priodol

a chynaliadwy i'r Cyngor pan fydd yr ymyrraeth bresennol yn dod i ben.

30 Er bod Comisiynwyr yn parhau â'r swyddogaeth weithrediaeth lawn, mae Pwyllgor Gwaith cysgodol o aelodau etholedig yn cyfrannu at y swyddogaeth honno, ac mae hefyd yn cyfranogi mewn trafodaethau rheolaidd gyda phenaethiaid gwasanaeth ac uwch reolwyr, gan gynnwys adolygiadau o berfformiad. Mae mynd ati'n ddiweddar i ffurfio Bwrdd Gwella Corfforaethol sy'n cynnwys Comisiynwyr, aelodau'r Pwyllgor Gwaith cysgodol, cadeiryddion y Pwyllgor Craffu Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio, ac uwch reolwyr, yn darparu fforwm pellach lle gall cynghorwyr ddechrau ail-ymgymryd â'u rolau o fewn y broses ddemocrataidd. Fodd bynnag, nid yw swyddogaeth y Bwrdd newydd hwn mewn perthynas â'r Weithrediaeth, pwyllgorau craffu a'r Cyngor yn ddigon clir eto.

31 Mae ailgyflwyno'r cynghorwyr yn raddol fel hyn i'w hystod swyddogaethau llawn, o dan oruchwyliaeth y Comisiynwyr, yn broses a ddylai barhau. Ni all fod fawr o sicrwydd y gall y Cyngor weithredu'n annibynnol ar yr ymyrraeth bresennol hyd nes bod aelodau etholedig wedi cael y cyfle i ddangos y gallant arfer eu pwerau'n effeithiol er budd pobl Ynys Môn.

32 Mae'r cynnydd o ran gwella swyddogaeth y pwyllgorau craffu wedi'i gynnal ar draws y rhan fwyaf o'r pwyllgorau. Canfu ein gwaith maes diweddar fod effeithiolrwydd y craffu cyn penderfynu, yn benodol, yn parhau i wella. Mae cydlynu gwell nag o'r blaen rhwng blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu a rhai'r Comisiynwyr. Fodd bynnag, mae'r gwelliannau hyn yn ymwneud yn bennaf â chraffu ar ddatblygu polisi a gweithredu polisi; dim ond rôl gyfyngedig y mae pwyllgorau craffu yn ei chwarae yn dylanwadu ar ac yn herio'r penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynwyr yn eu rôl fel Gweithrediaeth y Cyngor.

33 Mae gallu pwyllgorau craffu i graffu ar, a herio cyflawni blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth, a pherfformiad yn eu herbyn, heb ei ddatblygu'n ddigonol o hyd at ei gilydd. Mae rhai eithriadau, serch hynny. Mae pwyllgorau craffu, er enghraifft, wedi cynnal archwiliad cadarn o berfformiad ysgolion yn 2011, ac maent hefyd wedi cynnal adolygiad trylwyr o gynnydd yn gweithredu Cynllun Gweithredu Gwasanaethau Plant y Cyngor yn dilyn arolygiad beirniadol gan AGGCC yn gynharach yn y flwyddyn. Mae absenoldeb system gadarn ar gyfer rheoli perfformiad corfforaethol, a diffyg system wybodaeth effeithiol wedi bod yn rhwystrau sylweddol rhag effeithiolrwydd y pwyllgorau craffu yn monitro ac yn herio perfformiad gwasanaethau.

**Mae'n rhy gynnar i farnu a fydd datblygiadau addawol ym mhroses rheoli perfformiad a rheoli risg y Cyngor yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr holl wasanaethau**

34 Canfu arolygiad AGGCC yn 2011 nad oedd fawr o dystiolaeth bod prosesau sicrhau ansawdd cadarn ar waith yn y Gwasanaethau Plant, a bod diffyg capasiti rheoli i wneud gwaith sicrhau ansawdd. Roedd yr adroddiad arolygu'n cynnwys argymhelliad y dylai'r Cyngor ddatblygu cysondeb wrth weithredu safonau disgwyliedig ac eglur yng ngwaith ei staff. Fodd bynnag, bydd y prosesau hyn yn

cymryd amser i'w hymgorffori, a bydd cynnydd y Cyngor o ran gwella rheolaeth o'i berfformiad ei hun yn parhau'n faes a fydd yn cael ei fonitro a'i adolygu'n barhaus.

35 Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen am fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad gwell, yn gorfforaethol ac o fewn gwasanaethau cymdeithasol. Ar lefel gorfforaethol, bu cynnydd addawol yn y misoedd diwethaf o ran datblygu fframwaith o'r fath i'w ddefnyddio ar draws yr holl wasanaethau. Mae swyddogion wedi ymgysylltu'n dda â chynghorau eraill i ddatblygu'r ymagwedd newydd hon. Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu'r fframwaith yn ffurfiol ac wedi ei ddefnyddio i ddatblygu'i broses adrodd am gynnydd wrth weithredu Themâu Gwella'r Comisiynwyr, ac wrth asesu ac adrodd am berfformiad gwasanaethau yn ystod 2011-12. Fodd bynnag, mae hanes y Cyngor o weithredu newid yn gyson ar draws yr holl adrannau yn awgrymu ei bod hi'n rhy gynnar eto i asesu'r graddau y bydd gwasanaethau unigol yn arddel y fframwaith.

36 Mae'r gwaith o ddatblygu Cynllun Corfforaethol tair blynedd newydd ar gyfer 2012-15 yn mynd rhagddo erbyn hyn, ac yn fuan bydd gwasanaethau'n dechrau cynhyrchu'r cynlluniau busnes cysylltiedig a'r mesurau ar gyfer mesur eu llwyddiant yn eu herbyn. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes gwaith pwysig hwn yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

37 Mae'r gwaith o ddatblygu fframwaith rheol risg yr un mor addawol, ond yn yr un modd â'r fframwaith rheoli perfformiad, mae'n rhy gynnar i farnu ei effaith. Mae'r gwaith sydd wedi'i wneud yn cofnodi mewn un lle y materion hynny a allai atal y Cyngor rhag cyflawni'i amcanion, yn dogfennu sut mae risgiau felly i'w lliniaru, ac yn darparu cyfrwng ar gyfer monitro cynnydd y camau hynny. Mae gan system rheoli risg effeithiol y potensial i helpu'r Cyngor osgoi gwendidau blaenorol cyffredin pan oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud ond byth yn cael eu gweithredu, a phan nad oedd digon o sylw yn cael ei roi i faterion pwysig yn ymwneud â gwasanaethau ar lefel gorfforaethol gan gynghorwyr ac uwch reolwyr.

**Mae'r uwch reolaeth yn parhau'n fregus, ond mae'r Cyngor wedi cytuno i adolygu'r strwythur er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau**

38 Ers ei benodiad, mae'r Prif Weithredwr dros dro wedi parhau i gyflawni rhannau o'i rôl flaenorol fel Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, sy'n wag o hyd. Mae'r rôl ddeuol hon wedi bod yn feichus eithriadol, ac mae ganddi'r potensial hefyd i danseilio prif swyddogaeth y Prif Weithredwr dros dro, sef arwain yr Uwch Grŵp Arweinyddiaeth a rheolwyr ar lefel is.

39 Mae ein gwaith maes diweddar yn dynodi nad yw gwaith yr Uwch Grŵp Arweinyddiaeth wedi ennyn hyder rheolwyr eto. Nid yw rôl y Grŵp hwnnw'n ddigon clir o fewn strwythur penderfynu'r Cyngor. Er ei fod yn cyfarfod yn rheolaidd, mae rheolwyr yn gweld bod yr Uwch Grŵp Arweinyddiaeth yn araf yn datrys materion ac i ddarparu'r arweinyddiaeth gorfforaethol angenrheidiol i yrru mentrau strategol ar draws y Cyngor. Yn yr un modd, nid yw Grŵp Rheoli'r Penaethiaid Gwasanaeth wedi cyflawni'i botensial eto fel grŵp sy'n dylanwadu ar newid a

moderneiddio ymhlith staff. Mae mwy i'w wneud er mwyn sicrhau fod yr holl staff yn gwbl ymroddedig i raglen newid y Cyngor. Hyd yma, nid yw'r uwch reolwyr wedi gwneud digon i wneud yn siwr bod gan fentrau'r berchenogaeth angenrheidiol ar lefelau uwch reolwyr a rheolwyr canol er mwyn sicrhau eu rhoi ar waith yn llwyddiannus.

40 Fe wnaeth y Comisiynwyr nodi'n gynnar yr angen i adolygu a chryfhau uwch reolaeth y Cyngor. Yn ddiweddar iawn fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo diwygiadau i'w strwythur rheoli corfforaethol a ddylai, pan fydd penodiadau newydd wedi'u gwneud, ddarparu capasiti ychwanegol y mae mawr ei angen. Yn bwysicach, mae'r newidiadu hyn wedi eu cynllunio er mwyn sicrhau fod uwch reolwyr, yn unigol a gyda'i gilydd, yn atebol am gyflawni gwelliannau cynaliadwy yn llwyddiannus.

**Mae'r Cyngor yn gwella graddau ac effeithiolrwydd ei ymgysylltu â dinasyddion ac mae'n ceisio hyrwyddo diddordeb ehangach y cyhoedd yn rôl y cynghorydd**

41 Mae'r gwaith i gynyddu lefel yr ymgysylltu â dinasyddion Ynys Môn wedi parhau. Mae gwefan y Cyngor wedi ei huwchraddio yn ddiweddar, yn dod yn fwy hwylus i'w defnyddio ac yn cynnig mwy a mwy o wybodaeth, ac mae'n cynnwys cyfeiriadau da at ddolenni i ystod o faterion y mae'r Cyngor yn gofyn am farnau'r cyhoedd yn eu cylch. Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori gydag ystod eang o grwpiau rhanddeiliaid er mwyn mesur barnau ynglŷn â'i flaenoriaethau ar gyfer 2012-15. Siomedig fu presenoldeb y cyhoedd mewn sioeau teithiol ymgysylltu â'r gymuned a gynhaliwyd mewn ysgolion uwchradd ledled yr Ynys, ond mae'r Cyngor wedi adolygu ei ddulliau ac wedi dysgu gwersi i'r dyfodol ynglŷn â'r strwythur, amseru a lleoliadau ar gyfer digwyddiadau o'r fath.

42 Lansiodd y Cyngor ei agenda adnewyddu democrataidd yn llwyddiannus yn Sioe Môn ym mis Awst 2011, ac ers hynny, mae wedi parhau i wneud hyn yn y sioeau teithiol ymgysylltu â'r gymuned a thrwy ei wefan. Mae'n gwneud synnwyr i gysylltu ymgysylltu â'r gymuned ac adnewyddu democrataidd mewn un strategaeth, am fod cynnwys dinasyddion mwy yng ngwaith y Cyngor hefyd yn debygol o hyrwyddo mwy o ddiddordeb ymhlith pobl i sefyll fel ymgeisydd i'w hethol i'r Cyngor.

43 Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol wedi cwblhau ei arolwg o wardiau etholiadol yr Ynys, a chyhoeddodd gynigion drafft ar ddiwedd mis Tachwedd 2011. Os cânt eu rhoi ar waith, bydd y cynigion yn creu 11 o wardiau newydd, gydag wyth ohonynt yn cael eu cynrychioli gan fwy nag un cynghorydd. Byddai'r cynigion yn lleihau cyfanswm nifer y cynghorwyr o 40 i 30. Mae'r Cyngor eisoes wedi mynegi'i wrthwynebiad i'r cyfryw newidiadau, ac mae ymgynghoriad cyhoeddus yn mynd rhagddo. Mae'n ymddangos yn annhebygol iawn y bydd penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud mewn pryd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2012 ym mis Mai yn unol â'r cynllun. Byddai gohirio'r etholiadau yn cynnig mwy o amser ar gyfer ystyried cynigion y Comisiwn Ffiniau yn rhesymegol ac i weithredu unrhyw newid wedi hynny. Byddai hefyd yn rhoi mwy o amser i'r Comisiynwyr roi mwy o'u rhaglen waith gynlluniedig ar waith, ac i roi'i gynaliadwyedd ar brawf.

**Mae agenda mewnol y Cyngor ar gyfer newid wedi cyfyngu ar ei allu i chwarae rhan arweiniol mewn cydweithredu rhanbarthol, ond mae'r Comisiynwyr wedi ymrwymo i ail-ymgysylltu â'r gwaith**

44 Mae'r newidiadau yn dilyn ymyrraeth 2011 a chapasiti uwch reolaeth cyfyngedig y Cyngor yn anochel wedi tanseilio'i allu i chwarae rhan arweiniol yng ngwaith Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru, sy'n parhau i ddatblygu ystod o wasanaethau a rennir ar draws gogledd Cymru. Fe wnaeth y Cyngor, serch hynny, gymeradwyo mewn egwyddor yr Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer:

- Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion; a
- Chanolfan Ranbarthol ar gyfer Comisiynu, Caffael a Monitro, gyda'r nod o sicrhau mwy o effeithlonrwydd wrth gaffael pecynnau gofal preswyl cost uchel ond bychan eu nifer ar gyfer plant ac oedolion, a'u monitro ar ôl hynny.

45 Mae'r Cyngor wedi mynegi amheuon ynglŷn ag agweddau ar y trefniadau rheoli ar gyfer rhai o'r prosiectau arfaethedig. Mae rhai partneriaid eraill yn gweld y cyfryw amheuon fel ymagwedd rhy ochelgar. Fodd bynnag, mae gan feirniadaeth adeiladol a nodi materion yn y cam Achosion Busnes Amlinellol y potensial i gryfhau Achosion Busnes Llawn maes o law, ac i osgoi niweidio colli ymrwymiad nes ymlaen yn y broses gynllunio.

46 Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, sy'n cynnwys gwasanaethau cyhoeddus eraill yn ogystal â chwe chyngor gogledd Cymru, yn arwain pedair rhaglen waith. Mae pob un ohonynt yn cynnwys un neu fwy o brosiectau cydweithredol arwyddocaol o bosibl. Mae partneriaid wedi buddsoddi llawer o amser ac adnoddau yn mynd â'r gwaith hyn yn ei flaen dros y ddwy flynedd diwethaf mewn ymateb i anogaeth gan Lywodraeth Cymru a'r angen cynyddol i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae'r prosiectau hynny a fydd yn integreiddio gwasanaethau ar draws gogledd Cymru i gyd yn ymgodymu, ar wahân yn aml, â materion anodd fel:

- llywodraethu'r gwasanaethau arfaethedig ar y cyd, a sut gallai pob un o'r cynghorau cyfansoddol gynnal ac arfer eu hatebolrwydd unigol am gost ac ansawdd gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno ar eu rhan; a
- sut i ddelio â gwahaniaethau mewn telerau ac amodau staff a allai drosglwyddo i'r gwasanaeth integredig newydd, pan fydd wedi'i sefydlu.

47 Y tu allan i agenda'r bartneriaeth ranbarthol, mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd gerllaw i ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd. Bydd y Cynllun, sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, yn pennu fframwaith polisi i lywio penderfyniadau cynllunio ynglŷn â defnyddio tir ar draws y ddau awdurdod. Mae cynllun gweithredu gydag adnoddau ar waith i gyflawni'r Cynllun hwn. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol hefyd wedi cytuno i weithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd i ddwyn y broses rhesymoli partneriaethau statudol yn ei blaen ar draws y ddwy sir.

## Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â methiant y Cyngor yn ystod y ddwy flynedd diwethaf i gymeradwyo'i gyfrifon erbyn y terfyn amser gofynnol, ond mae rhagolwg ariannol y Cyngor yn heriol

48 Gwariodd y Cyngor oddeutu £2.2 miliwn yn llai nag a gynlluniwyd yn ei gyllideb refeniw yn 2010-11. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu rhoi rhannau o Raglen Blaenoriaethau Fforddiadwy'r Cyngor ar waith yn gynnar. Roedd gweithredu'r Rhaglen hon, a gynlluniwyd i gyflawni'r arbedion sydd eu hangen i ddelio â chyllid refeniw gostyngol, yn un o amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11. Roedd achosion o danwario o £100,000 o leiaf mewn wyth o wasanaethau, gan gynnwys tanwario net o ryw £1.5 miliwn yn y gwasanaethau cymdeithasol.

49 Ym mis Mawrth 2011, cyn dechrau'r ymyrraeth bresennol gan Weinidogion, cytunodd y Cyngor i becyn arbedion o £7 miliwn dros dair blynedd, gan gynnwys toriadau o £3.4 miliwn yn ystod 2011-12. Mae'r rhan fwyaf o'r swm hwn yn rhan o Raglen Blaenoriaethau Fforddiadwy'r Cyngor. Mae'r Comisiynwyr yn monitro sefyllfa'r gyllideb yn fanwl, ac mae'r adroddiad diweddaraf yn rhagweld y bydd mentrau o dan y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn 2011-12 yn sicrhau rhyw £649,000 yn llai nag a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn arbed mwy na hanner y swm yma yn 2012-13. Nid oedd y Cyngor yn gallu bodloni rhai targedau yr oedd wedi'u gosod yn ei Gytundeb Canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru, a gallai golli cyllid grant o ryw £184,000.

50 Mae Archwilydd y Cyngor wedi adrodd bod y rhagolwg ariannol yn heriol iawn (gweler Atodiad 3). Yng ngolau'r hinsawdd economaidd gyffredinol a setliad hyd yn oed yn is nag a ragwelwyd, mae'r Comisiynwyr wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori ar strategaeth cyllideb ar gyfer 2012-13. Ym mis Ionawr 2012, mae'r Cyngor ym amcangyfrif y bydd angen toriadau o tua £4.5 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol i ddod, er mwyn caniatáu £1 miliwn ar gyfer tyfiant angenrheidiol. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd tua £1.9 miliwn o'r arbedion angenrheidiol yn cynrychioli toriadau i wasanaethau.

51 Adroddodd llythyr yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Awst 2011 am bryderon sy'n dwysáu ynglŷn â gallu'r Cyngor i gynhyrchu cyfrifon blynyddol amserol. Roedd y Cyngor wedi methu o'r blaen â chymeradwyo'i gyfrifon 2009-10 erbyn y terfyn amser ar 30 Medi 2010 a oedd yn ofynnol gan reoliadau. Ers hynny, mae'r Cyngor hefyd wedi methu'r terfyn amser 30 Mehefin 2011 i gynhyrchu ei Ddatganiad o Gyfrifon drafft ar gyfer 2010-11. Arweiniodd y llithriad hwn at ail fethiant olynol i gymeradwyo'i gyfrifon erbyn terfyn amser diwedd mis Medi. Mae anallu'r Cyngor i fodloni'r terfynau amser statudol yn fethiant mewn llywodraethu corfforaethol. Ysgrifennodd yr Archwilydd Penodedig at y Cyngor ym mis Medi 2011 yn nodi'i bryderon yn glir, ac yn datgan ei fod yn ystyried pa un ai i gyhoeddi adroddiad neu beidio er budd y cyhoedd. Ar 16 Tachwedd 2011, roedd Archwilydd y Cyngor yn gallu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifon 2010-11, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor.

52 Roedd llythyr yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Awst 2011 yn cynnwys argymhelliad statudol, y dylai'r Cyngor, fel mater o frys, gymryd camau i sicrhau bod ganddo'r capasiti a'r gallu i gyflawni'i swyddogaeth gyllid yn effeithiol.

53 Aeth y Comisiynwyr ati i weithredu'n bendant gydag ymateb. Ar 12 Medi 2011, fe wnaethant benderfynu y dylid ymchwilio i honiadau o gamymddwyn yn erbyn Swyddog Adran 151[2] y Cyngor. Dylid pwysleisio nad yw'r honiadau hyn yn rhai o natur droseddol. Wrth wneud y penderfyniad hwn, defnyddiodd y Comisiynwyr y pwerau a roddwyd iddynt o dan gyfarwyddyd y Gweinidog i wrthod penderfyniad cynharach gan Bwyllgor Ymchwilio'r Cyngor. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, mae Person Annibynnol Dynodedig a benodwyd gan y Gweinidog yn cynnal yr ymchwiliad, ac mae'r swyddog Adran 151 wedi'i atal heb ragfarn. Fel mesur dros dro, mae'r Gweinidog wedi penodi swyddog Adran 151[2] rhan-amser dros dro tan y cwblheir yr ymchwiliad. Yn yr amser byr y buodd yn ei swydd, mae'r swyddog Adran 151 dros dro wedi dechrau asesu capasiti a gallu'r gwasanaeth cyllid, ac mae eisoes wedi sicrhau cytundeb y Comisiynwyr i ddarparu rhywfaint o gapasiti ychwanegol.

54 Tynnodd AGGCC sylw yn ei Werthusiad ac Adolygiad Perfformiad Blynyddol at ddiffyg rheolaeth a gweinyddiaeth effeithiol Grant Cymorth – sef y Grant Cymorth Plant a Phobl Ifanc sy'n ffynhonnell refeniw sylweddol i'r Cyngor. O ganlyniad i faterion a godwyd yn llythyr cymhwyso'r archwiliad ar gyfer 2009-10, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y Cyngor yn dweud y byddai'n cadw arian Cymorth ar gyfer 2011-12 yn ôl nes bod tystiolaeth bod eu pryderon wedi cael sylw. Yn dilyn ail-archwiliad, adroddodd archwilwyr y Cyngor i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2011 fod y Cyngor wedi cwblhau'r gwaith unioni angenrheidiol. Nid oedd hapwiriadau wedi'u cynnal eto o ddefnydd partneriaid o grantiau, oherwydd yr amser byr rhwng ymateb y Cyngor a'r ail-archwiliad. Fodd bynnag, mae cynlluniau ar waith i sicrhau bod yr hapwiriadau hyn yn digwydd.

55 Mae gweinyddiaeth ehangach y Cyngor o grantiau wedi bod yn destun pryder yn y gorffennol, ond mae arwyddion o welliant. Yn 2009-10, roedd y Cyngor yn hwyr yn cyflwyno dwy ran o dair o'i geisiadau grant i'w archwilwyr, ac roedd bron i hanner yn destun llythyrau cymhwyso. Colli staff a methu recriwtio pobl yn eu lle oedd i gyfrif yn rhannol am y perfformiad hwn. Ar ddiwedd mis Rhagfyr 2011, ar ôl recriwtio cydlynydd grantiau, dim ond rhyw chwarter o geisiadau 2010-11 a gyflwynwyd ar gyfer ardystiad archwilio oedd yn hwyr. Fodd bynnag, mae'r gwelliant yn ansawdd ceisiadau grant wedi bod yn araf, gyda 46 y cant o'r ceisiadau a ardystiwyd erbyn diwedd mis Rhagfyr 2011 yn parhau'n destun llythyrau cymhwyso.

56 Bu gwelliannau o ran amseroldeb a chywirdeb ceisiadau am gymhorthdal budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor, ond mae'r Cyngor yn dal i'w chael hi'n anodd cynhyrchu'r cais am gymhorthdal erbyn terfyn amser diwedd mis Mehefin.

2 Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor yw'r swyddog Adran 151 hwn, sef swydd statudol a ddiffinnir o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn annhebygol o gynorthwyo gwelliant parhaus, ac fel gwasanaethau corfforaethol eraill, cânt eu cyfyngu gan faterion yn ymwneud ag adnoddau a chapasiti

57 Yn 2010, nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod llawer o awdurdodau lleol yn ymgodymu â sicrhau bod technoleg yn cael ei defnyddio'n effeithiol i gynorthwyo trawsnewid gwasanaethau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. O ganlyniad, rydym wedi cynnal adolygiadau o dechnoleg yn y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru.

58 Yn Ynys Môn, daethom i'r casgliad fod trefniadau presennol y Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn annhebygol o gynorthwyo gwelliant parhaus. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae trefniadau technoleg yn datblygu, ond nid oes cefnogaeth a chyfeiriad corfforaethol clir iddynt, maent yn adweithiol ac wedi'u cyfyngu gan faterion yn ymwneud ag adnoddau a chapasiti; ac
- mae gwendidau mewn agweddau ar berfformiad a fydd, heb fynd i'r afael â hwy, yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i fanteisio i'r eithaf ar botensial technoleg a galluogi gwella gwasanaethau yn amserol a gwneud arbedion.

59 Mae agweddau ar ein canfyddiadau o'n hadolygiad o dechnoleg yn debyg i ganfyddiadau ein hadolygiadau blaenorol o Adnoddau Dynol a Chyllid, y ddau wasanaeth corfforaethol arall sy'n tanategu gwaith y Cyngor wrth gyflwyno gwasanaethau llinell flaen i'r cyhoedd. Mae diffyg adnoddau ym mhob un o'r tri gwasanaeth o ran staff; maent yn ei chael hi'n anodd darparu lefel ddibynadwy o gymorth a chyngor i wasanaethau eraill tra'u bod, ar yr un pryd, yn cyflawni'r swyddogaethau corfforaethol allweddol maent yn gyfrifol amdanynt. Gyda'r lefel bresennol o adnoddau, mae'r gwasanaeth adnoddau dynol wedi gwneud cynnydd da wrth roi cynllun gweithredu mewn lle yn dilyn adolygiad cynharach. Mae'r gwasanaethau TGCh a chyllid nawr hefyd wedi creu cynlluniau gweithredu ac wedi dechrau eu rhoi mewn lle.

60 Mae AGGCC wedi nodi yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2010-11 effaith rheolaeth wan ar adnoddau dynol o fewn y gwasanaethau cymdeithasol. Adroddodd AGGCC nad yw'r Cyngor wedi datblygu gweithlu sefydlog mewn gwasanaethau plant sydd â chapasiti rheoli digonol i wella a chynnal ansawdd y gwasanaethau. Er gwaethaf barnau tebyg mewn arolygiadau blaenorol, nododd arolygiad 2011 o asesu a rheoli gofal mewn Gwasanaethau Plant fod morâl yn isel iawn ymhlith y staff. Roedd gan y Cyngor nifer o reolwyr dros dro mewn uwch swyddi, ac roedd hynny'n effeithio'n andwyol ar ei allu i gynnal sefydlogrwydd ar adeg pan fo angen gwella a newid ar fyrder. Yn dilyn arolygiad 2011, cytunodd y Cyngor i gynyddu'r capasiti o fewn ei weithlu a chyflogi tri uwch ymarferydd arall yn 2011-12. Fodd bynnag, mae darparu gweithlu sefydlog, hyderus a chymwys mewn gwasanaethau cymdeithasol yn parhau'n flaenoriaeth i'r Cyngor.

## Bu rhai gwelliannau mewn gwasanaethau llinell flaen, ond mae gwendidau mewn gwasanaethau cymdeithasol i blant, a chynnydd araf yn y gwasanaeth ysgolion yn adlewyrchu diffyg buddsoddi yn y gorffennol mewn capasiti rheoli

61 Ym mis Mai 2010, cyhoeddodd y Cyngor 34 o amcanion gwella, wedi'u grwpio o dan bump blaenoriaeth strategol yn y Cynllun Corfforaethol. Y blaenoriaethau strategol oedd i:

- wella enw da'r Cyngor a'r ynys;
- diogelu a datblygu economi'r ynys;
- adeiladu a chynorthwyo cymunedau cynaliadwy;
- hyrwyddo cymunedau iach, diogel a theg; a
- datblygu gwasanaethau trefnus a fforddiadwy.

62 Dywedom yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd fod maint y gwaith a gynhwysir yn y Cynllun Corfforaethol yn rhaglen uchelgeisiol, a bod y raddfa amser ar gyfer cyflawni rhai amcanion gwella yn ymestyn ymhell y tu hwnt i 2010-11. Nodom hefyd nad oedd y 'canlyniad dymunol' ar gyfer pob amcan gwella yn cynnig fawr o syniad o'r raddfa wella yr oedd y Cyngor yn gobeithio'i chyflawni, ac y byddai'n anodd felly i'r Cyngor a'i ddinasyddion farnu pa un a chyflawnwyd yr amcan ai peidio.

63 Rydym wedi cynnig sylwadau'n gynharach yn yr adroddiad hwn ar y cynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud wrth gyflawni'r amcanion gwella hynny sy'n ymwneud â'i drefniadau mewnol – y flaenoriaeth strategol gyntaf a'r bumed uchod. Mae paragraffau 66 i 100 yn amlinellu ein gwerthusiad o gynnydd y Cyngor o ran gwella ansawdd ac argaeledd ei wasanaethau i ddinasyddion.

64 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithio gyda chynghorau i'w helpu datblygu'u Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y mae cynghorau'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Mae pob cyngor yn darparu adroddiad monitro blynyddol i'r Bwrdd. Adroddom yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd fod y Cyngor, yn dilyn trafodaethau gyda'r Bwrdd, wedi cynnwys fel un o'i amcanion gwella ar gyfer 2010-11 ei ymrwymiad i barhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

65 Eleni, mae'r Bwrdd wedi dweud wrthym fod y Cyngor wedi mynd i'r afael â phryderon y Bwrdd am ei drefniadau monitro gan greu Grŵp Tasg Iaith, a fydd yn anelu i sicrhau craffu effeithiol o weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg. Llwyddodd y Cyngor i gyflawni mwyafrif o dargedau'r Cynllun cyfredol a chaiff y fersiwn diwygiedig ei gyflwyno i'r Bwrdd er cymeradwyaeth yn gynnar yn 2012. Dechreuwyd ar y gwaith o brif ffrydio'r Gymraeg i brif strategaethau a pholisïau'r Cyngor drwy ddatblygu teclyn asesu effaith integredig ar gyfer y Gymraeg a'r cydraddoldebau. Nododd y Bwrdd fod angen gwaith pellach mewn perthynas â chontractau gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau a ddarperir ar ran y Cyngor gan drydydd partïon.

## Mae gwelliant sydd wir ei angen mewn Gwasanaethau Plant wedi bod yn araf yn dod i'r amlwg, ond mae agweddau ar ailfodelu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn yn adlewyrchu cynllunio strategol ac arweinyddiaeth effeithiol

**Mae AGGCC wedi nodi bod llawer o agweddau ar gymorth y Cyngor i blant mewn angen yn wan a bod cynnydd o ran gwella perfformiad yn araf**

66 Yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol 2010-11, daeth AGGCC i'r casgliad fod angen i Wasanaethau Plant ar Ynys Môn wella'n sylweddol ac ar fyrder er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant. Er eu bod wedi nodi'r angen am welliant dros nifer o flynyddoedd, adroddodd AGGCC na fu unrhyw newid sylweddol er gwell pan gyhoeddwyd yr Adolygiad a Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol ganddynt ym mis Hydref 2011. Argymhellodd AGGCC fod angen i'r Cyngor sefydlu ac ymgorffori systemau priodol a chorfforaethol ar gyfer adrodd, dirprwyo a goruchwylio er mwyn cefnogi gwelliannau angenrheidiol i'r ddarpariaeth gwasanaethau plant.

67 Cynhaliodd AGGCC arolygiad o asesu a rheoli gofal mewn Gwasanaethau Plant ar Ynys Môn ar ddechrau 2011. Fe wnaethant ganfod fod ansawdd llawer o asesiadau'n wael, bod oedi o ran asesu achosion cymhleth a difrifol, ac nad oedd asesiadau'n cael eu cwblhau'n brydlon. Roedd y trothwyon sy'n rheoli mynediad i wasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd yn anghyson. Fe wnaeth arolygiad 2011 hefyd ganfod meysydd lle nad oedd asesu a rheoli gofal o fewn Gwasanaethau Plant yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol, arweiniad statudol a rheoliadau.

68 Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu ei gynllun gweithredu ac yn ei roi ar waith er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion arolygiad 2011, ac mae wedi trefnu cymorth allanol i'r rhaglen wella. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cytuno i ddarparu staff llinell flaen ychwanegol ar gyfer 2011-12 i gefnogi prosesu asesu amserol ac effeithiol ac ymyraethau. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Gwella Gwasanaethau i oruchwylio cynnydd, ond mae AGGCC wedi adrodd nad yw'r camau gweithredu wedi cael effaith sylweddol ar berfformiad eto a bod nifer o feysydd allweddol lle mae perfformiad yn parhau ar y lefel isaf yng Nghymru.

69 Dywedodd y Cyngor y byddai, fel un o'r 34 o amcanion gwella ar gyfer 2010-11, yn 'canolbwyntio ar gyfrifoldebau rhianta corfforaethol y Cyngor, a'i drefniadau ar gyfer diogelu plant'.

70 Canfu arolygiad AGGCC o wasanaeth maethu'r Cyngor, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011, fod gofalwyr maeth a phobl ifanc yn teimlo bod gweithwyr cymdeithasol y tîm lleoli plant yn darparu cymorth da, a'u bod ar gael yn hawdd. Dywedodd pobl ifanc mewn gofal maeth eu bod yn teimlo fod eu gofal yn eu cadw'n ddiogel, a'u bod yn hapus gyda'r ffordd yr oedd gofalwyr maeth yn gofalu amdanynt. Dywedodd pobl ifanc eu bod yn cael cymorth i fwynhau eu hobïau a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, a bod hyn yn eu helpu i elwa o'u lleoliad maeth.

71 Fodd bynnag, fe arolygodd AGGCC gartref plant a oedd yn cael ei reoli gan y Cyngor ym mis Ionawr 2011 a nododd faterion pwysig yn ymwneud â gweithredu, rheoli a monitro'r cartref. Ar ôl yr arolygiad, penderfynodd y Cyngor gau'r cartref ac adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer cyflwyno a chomisiynu gofal preswyl. Yn y cyfamser, mae'r Cyngor

yn caffael lleoliadau gan ddarparwyr gofal annibynnol.

72 Roedd AGGCC wedi nodi'r angen i wella amseroldeb a chysondeb adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal fel maes i'w ddatblygu yn eu Hadolygiad a Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2009-10. Er y cafwyd gwelliant bach yn y dangosydd perfformiad hwn yn 2010-11, gwelwyd dirywiad yn rhai dangosyddion eraill sy'n adlewyrchu rôl rhianta corfforaethol y Cyngor mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Fe wnaeth cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal ar Ynys Môn wella ar y rhan fwyaf o'r dangosyddion yn 2010. Ni wnaeth unrhyw un adael yr ysgol yn 16 oed heb unrhyw gymwysterau cymeradwy. Fodd bynnag, mae'r sgôr pwyntiau cymwysterau allanol cyfartalog ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sy'n 16 oed, er ei bod yn well nag yn 2009, yn parhau islaw cyfartaledd Cymru. Daeth AGGCC i'r casgliad bod angen i'r Cyngor wella cyfleoedd bywyd i'w blant sy'n derbyn gofal, a hynny ar fyrder.

73 Ni wnaeth arolygiad AGGCC yn 2011 o asesu a rheoli gofal ganolbwyntio ar ddiogelu plant. Fodd bynnag, darparodd dystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau arolygiad pellach o ddiogelu yn ystod yr hydref 2011. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, nid yw canfyddiadau'r arolygiad diogelu wedi'u cyhoeddi.

**Mae agweddau ar ailfodelu gwasanaethau oedolion y Cyngor yn adlewyrchu cynllunio strategol ac arweinyddiaeth effeithiol, ond mae ei gefnogaeth i bobl â chyfrifoldebau gofalu yn faes i'w ddatblygu**

74 Mewn Gwasanaethau Oedolion, mae AGGCC wedi adrodd y bu modd i'r Cyngor wneud defnydd da o bartneriaethau i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Gan ddilyn dull o weithredu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, agorwyd pwynt mynediad unigol i wasanaethau ym mis Mai 2011, ac mae'n ddatblygiad pwysig i'r rhanbarth. Nod y bartneriaeth hon yw darparu dull di-dor o asesu unedig sydd wedyn yn darparu gwasanaethau effeithiol a chydlynus i bobl. Roedd y gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn ymhlith y gorau yng Nghymru, ar 1.5.

75 Mae amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 yn cynnwys y bwriad i ailfodelu cyfleusterau gofal cartref, gofal preswyl a gofal dydd. Mae hyn yn gyson â Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles newydd 2011-14 sy'n cyfleu'r weledigaeth fod oedolion agored i niwed sy'n byw ar Ynys Môn yn gallu byw bywydau annibynnol, diogel a chyflawn yn yr amgylchedd o'u dewis. Roedd paratoi'r strategaeth hon yn un arall o amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11.

76 Yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol 2010-11, barnodd AGGCC fod ailfodelu gwasanaethau oedolion yn darparu tystiolaeth o rywfaint o arweinyddiaeth effeithiol a chynllunio strategol. Er enghraifft:

- Mae Canolfan Byron yn wasanaeth yn y gymuned sy'n cyfrannu'n sylweddol at hyrwyddo annibyniaeth, grymuso a lles, yn ogystal â chynyddu cynhwysiant cymdeithasol, gweithgarwch economaidd ac ymagwedd gadarnhaol at heneiddio.
- Mae'r Cyngor yn cynnig rhaglen 'Henediddio'n Dda' y mae defnyddwyr yn ei disgrifio fel rhaglen sydd wedi 'trawsnewid eu bywydau'. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o weithgareddau sy'n galluogi pobl hŷn i gymdeithasu, gwella'u symudedd corfforol a lleihau risg codymau mewn lleoliadau domestig a chyhoeddus.

77 Mae'r Cyngor yn fwy trwyadl nag o'r blaen yn cymhwyso'i feini prawf mynediad at wasanaethau oedolion, ac mae wedi cynyddu'r graddau y mae'n comisiynu gwasanaethau o'r sector gwirfoddol. O ganlyniad, fe wnaeth y gyfradd pobl hŷn 65 oed neu hŷn a gefnogir yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth ddisgyn yn fawr yn 2010-11, er bod nifer yr oriau o gymorth a ddarparwyd wedi cynyddu. Yn y cyfamser, fe wnaeth y gyfradd pobl hŷn fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn a gefnogir mewn cartrefi gofal gynyddu ychydig. Yn yr un modd, fe ddisgynodd y ganran o oedolion 18 i 64 oed a gefnogir yn y gymuned yn ystod y flwyddyn hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn ar gyfer y rheiny sy'n cael cefnogaeth yn y gymuned yn cynnwys y rheiny a gefnogir gan wasanaethau galluogi a chefnogi cymunedol sydd naill ai'n cael eu comisiynu'n uniongyrchol o'r trydydd sector neu o grwpiau cymunedol.

78 Mae AGGCC wedi nodi'r cymorth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu i bobl â chyfrifoldebau gofalu fel maes i'w ddatblygu. Er bod nifer y gofalwyr sy'n hysbys i'r Cyngor wedi cynyddu'n fawr yn 2010-11, mae dangosyddion perfformiad yn awgrymu nad oedd y Cyngor yn gallu bodloni'n llawn y cynnydd hwn yn y galw o ran asesu anghenion gofalwyr a darparu gwasanaeth iddynt.

79 Adroddom yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd fod y Cyngor wedi lleihau'r amser a gymerodd i gyflwyno Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Parhaodd y gwelliant hwn yn 2010-11; ar 310 o ddiwrnodau, roedd perfformiad ar Ynys Môn gryn dipyn yn well na chyfartaledd Cymru, sef 387 o ddiwrnodau.

**Mae gwaith y Cyngor i ddiwallu anghenion tai yn dangos darlun cymysg o lwyddiant yn 2010-11**

80 Adroddom hefyd y llynedd fod y Cyngor wedi pennu tri amcan gwella a oedd yn ymwneud ag anghenion tai'r ynys. Dywedodd y Cyngor y byddai'n:

- parhau i wella ansawdd stoc tai'r Cyngor er mwyn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru;
- parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau digartrefedd yn sgil galw nad oedd modd ei ragweld; a
- chyflawni rhaglen tai fforddiadwy gyda sefydliadau partner.

81 Mae'r Cyngor ar y trywydd iawn i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru yn ei stoc tai cyfan erbyn diwedd 2012-13. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Cynnydd o Ran Cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, a

gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012, yn cyfeirio'n gadarnhaol at y ffordd y mae'r Cyngor a'i gontractwr partner wedi rhaglennu adnewyddiadau'n effeithlon, ac mewn ffordd fel bod yr holl denantiaid eisoes wedi elwa o rywfaint o welliannau i'w cartrefi.

82 Fel y llynedd, mae'r Cyngor wedi cyflawni'n dda o ran ei waith yn atal digartrefedd, ond ymddengys bod ei berfformiad pan fydd digartrefedd yn digwydd yn wael o gymharu â chynghorau eraill. Mae dealltwriaeth glir gan y Cyngor o'r rhesymau y tu ôl i rai agweddau ar ei berfformiad. Mae'r cyfrifo ar gyfer un dangosydd, er enghraifft, yn cael ei wyrdroi gan y ffaith fod y Cyngor yn prydlesu llety dros dro gan landlordiaid preifat ac yna'n eu rhentu i deuluoedd digartref, ond mae diffiniad y dangosydd perfformiad yn gwahardd y math hwn o ddarpariaeth.

83 Mae archwilwyr y Cyngor wedi mynegi amheuon ynglŷn â dibynadwyedd data perfformiad y Cyngor mewn perthynas â nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod 2010-11. Mae adolygiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad yn y maes hwn yn cyfeirio at ystod eang o weithgarwch, ond yn absenoldeb amcanion sydd wedi'u diffinio'n glir, mae'n anodd barnu a yw'r Cyngor wedi cyflawni'r amcan gwella hwn ai peidio.

## Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, ond mae'r gwasanaeth ysgolion yn wynebu llawer o heriau wrth fynd ati i wella'i gost-effeithiolrwydd

84 Yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd, dywedom fod perfformiad disgyblion yn ysgolion cynradd Ynys Môn (cyfnodau allweddol 1 a 2) yn 2010 wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac roedd uwchlaw'r cyfartaledd. Yng nghyfnod allweddol 3 (disgyblion 14 oed), roedd perfformiad wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol hefyd, ac roedd uwchlaw'r cyfartaledd, ond yng nghyfnod allweddol 4 (disgyblion 16 oed), roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni Trothwy Lefel 2 islaw'r cyfartaledd.

85 Yn 2011, nid oedd perfformiad disgyblion mewn ysgolion cynradd gystal ag yn 2010 ar gyfartaledd. Mewn ysgolion uwchradd, fe wnaeth perfformiad wella eto yng nghyfnod allweddol 3, ac yng nghyfnod allweddol 4 roedd darlun cymysg, gyda gwelliant ar rai dangosyddion ond dirywiad mewn perfformiad yn erbyn dangosyddion eraill. Fe wnaeth disgyblion yn y chweched dosbarth yn ysgolion yr ynys berfformio'n dda eto yn 2011; roedd y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach i ddisgyblion 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd yn uwch ym mhob un ond dau awdurdod arall yng Nghymru.

86 Dywedodd y Cyngor y byddai, yn 2010-11, yn parhau i ganolbwyntio ar wella sgiliau craidd yn unol â Fframwaith Gwella Ysgolion Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, mae Estyn wedi dweud wrthym, gan ystyried ystod o wybodaeth gyd-destunol, fod perfformiad

ysgolion ar Ynys Môn yn 2011 islaw'r cyfartaledd ym mhob cyfnod allweddol. O'u cymharu ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru, mae rhyw 60 y cant o ysgolion Ynys Môn islaw'r cyfartaledd ar gyfer y Dangosydd Pwnc Craidd (canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) ym mhob cyfnod allweddol. Yng nghyfnod allweddol 4 hefyd mae llawer o ysgolion yn y 25 y cant isaf. Mae perfformiad yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, yn seiliedig ar hawl i gael prydau ysgol am ddim, wedi bodloni neu ragori ar chwech o 12 o feincnodau Llywodraeth Cymru yn y pedair blynedd hyd at 2010.

87 Barnodd Estyn fod presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn dda ac yn uwch na'r cyfartaledd, er y bu tuedd ostyngol dros y pedair blynedd diwethaf. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd islaw'r cyfartaledd, ac roedd pedair o'r pum ysgol yn y chwartel isaf o gymharu ag ysgolion tebyg eraill yng Nghymru. Mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy o ysgolion uwchradd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru.

88 Fel un o'i amcanion gwella ar gyfer 2010-11, cynhwysodd y Cyngor yr angen i adolygu strwythur ei Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a chynhyrchu Cynllun Partneriaeth diwygiedig ar gyfer 2011-14. Ym mis Mehefin 2011, cynhaliodd Estyn ailarolygiad o'r gwasanaethau cymorth ieuenctid ar Ynys Môn yn dilyn arolygiad beirniadol, cynharach yn 2009. Barnodd arolygwyr Estyn fod perfformiad presennol y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn ddigonol a bod ganddi ragolygon gwella da.

89 Dywedodd y Cyngor hefyd y byddai, yn 2010-11, yn datblygu strategaeth i fodloni gofynion menter Llywodraeth y Cynulliad, Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, a fydd yn cynnwys y rhaglen rhesymoli ysgolion. Ers i'r Cyngor bennu'r amcan gwella hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio'i menter Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i adlewyrchu'r gostyngiad yn y cyllid cyfalaf sydd ar gael. Roedd yn ofynnol i Gynghorau gyflwyno strategaethau diwygiedig yn cwmpasu cyfnod o chwe blynedd, ac yn ystod y cyfnod hwn byddai'n ofynnol iddynt gyfrannu 50 y cant o'r cyfalaf angenrheidiol, yn hytrach na'r 30 y cant a gynlluniwyd yn wreiddiol. Mae strategaeth ddiwygiedig y Cyngor wedi denu £3.95 miliwn yn unig mewn cyllid Llywodraeth Cymru oherwydd argaeledd cyfyngedig ffynonellau cyfalaf eraill i gydweddu cyfraniad Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfanswm yma o £7.9 miliwn wedi ei glustnodi er mwyn adeiladu ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi. Mae'r Cyngor hefyd wedi cytuno i adolygu'r ddarpariaeth ysgolion cynradd mewn tair ardal arall o'r ynys.

90 Yn y cyfamser, mae dwy ysgol fach arall wedi cau, ond mae dros 25 y cant o leoedd ysgol yn wag erbyn hyn. Mae cost addysg ysgol gynradd[3] wedi cynyddu yn 2011-12 i £5,318 fesul disgybl, sef yr uchaf ymhlith yr holl gynghorau yng Nghymru. Y gost gyfwerth ar gyfer ysgolion uwchradd yw £4,967 fesul disgybl, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

3 Cymerwyd y ffigurau o Ffurflenni Cyfrifon Refeniw, ac maent yn cynnwys gwariant dirprwyedig a gwariant heb ei ddirprwyo a ddosrannwyd i ysgolion cynradd, gan gynnwys grantiau penodol.

91 O fewn costau addysg gynradd ac uwchradd, mae'r symiau a ddirprwywyd i gyllidebau ysgolion ymhell islaw'r cyfartaledd. Mae'r cyllidebau dirprwyedig cymharol isel yn adlewyrchu'n bennaf y ffaith fod darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) y Cyngor yn arbennig o gostus, ac y telir amdani'n bennaf o gyllidebau heb eu dirprwyo. Mae'r gyllideb AAA gros ar gyfer 2011-12, sef £9.5 miliwn, yn gyfystyr â £1,024 ar gyfer pob disgybl yn ysgolion Ynys Môn. Y ffigur hwn yw'r uchaf yng Nghymru o gryn dipyn, ac mae'n llawer uwch na'r cyfartaledd fesul disgybl, sef £770.

92 Mae'r Cyngor yn wynebu cryn her i fodloni targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r gyfran o gyllid addysg a ddirprwyir i ysgolion. Mae cyllidebau dirprwyedig ysgolion ar gyfer 2011-12 ychydig yn is mewn termau arian parod nag oeddent ddwy flynedd yn ôl yn 2009-10. Mae ysgolion felly wedi dechrau defnyddio'r cronfeydd wrth gefn sylweddol yr oeddent wedi'u hadeiladu yn y gorffennol, ac a oedd yn rhy uchel. Yn ystod 2010-11, fe wnaeth lefel y cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw gan ysgolion ddisgyn £0.9 miliwn i £2.2 miliwn. Mae hyn yn gyfwerth â £242 fesul disgybl, sy'n parhau i fod ymhell uwchlaw lefel gyfartalog y cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw gan ysgolion yng Nghymru.

## Mae gwasanaethau sy'n ceisio hyrwyddo amgylchedd dymunol a chynaliadwy wedi perfformio'n dda, ac mae gwaith i gynyddu ffyniant yr ynys yn dangos addewid

93 Mae gwaith y Cyngor i gynnal yr ynys fel lle dymunol i fyw wedi symud ymlaen yn dda yn gyffredinol yn ystod y flwyddyn. Y mynegai glendid fel y'i cyfrifir o arolygiadau annibynnol (ac a ddarperir gan Cadwch Gymru'n Daclus) oedd y trydydd uchaf ymhlith cynghorau yng Nghymru yn ystod 2010-11.

94 Yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd, daethom i'r casgliad fod gwasanaeth rheoli gwastraff y Cyngor yn perfformio'n dda iawn. Dywedodd y Cyngor y byddai, yn 2010-11, yn parhau i weithredu ei raglen lleihau gwastraff, mentrau ailgylchu a threfniadau ar y cyd ar gyfer delio â gwastraff gweddilliol.

95 Erbyn hyn mae'r Cyngor wedi cyflwyno casgliadau gwastraff bwyd ar draws yr ynys fel bod pob cymuned yn cael yr un gwasanaeth. Mae cyfran y gwastraff sy'n cael ei anfon i'w dirlenwi wedi gostwng ymhellach, a chan fwy na tharged y Cyngor. Er bod archwilwyr y Cyngor wedi mynegi amheuon ynglŷn â dibynadwyedd ffigurau'r Cyngor, adrodda'r Cyngor fod 54 y cant o'r gwastraff mae'n ei gasglu yn cael ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu. Dim ond un cyngor arall yng Nghymru sydd wedi adrodd ffigurau gwell.

96 Nid yw cynlluniau'r Cyngor i ddatblygu rhaglen lleihau carbon ac effeithlonrwydd ynni yn ystod 2010-11 wedi mynd rhagddynt yn dda. Mae buddsoddiad arbed ynni mewn adeiladau y mae'r Cyngor yn berchen arnynt wedi'i atal am y tro tra bod y Cyngor yn datblygu ei gynlluniau rheoli asedau ac yn penderfynu pa adeiladau sy'n angenrheidiol. O ganlyniad, roedd cynnydd bach mewn allyriadau carbon deuocsid o adeiladau cyhoeddus annomestig yn 2010-11, tra bu gostyngiad cyfartalog o dros bump y cant ledled Cymru.

97 Pennodd y Cyngor bedwar amcan gwella o dan y thema 'diogelu a datblygu economi'r ynys'. Bu consensws eang am flynyddoedd lawer fod gwella ffyniant yr ynys yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Cynhaliwyd y consensws hwn drwy'r ddwy ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru. Ym mis Mehefin 2010, lansiodd y Cyngor ei Raglen Ynys Ynni. Nod y rhaglen hon yw gosod Ynys Môn yn brif ganolfan ynni carbon isel a chynaliadwy a fydd o fudd i Ynys Môn a gweddill gogledd Cymru.

98 Mae'r Comisiynwyr wedi mabwysiadu'r Rhaglen Ynys Ynni yn flaenoriaeth gorfforaethol, gan gydnabod ei photensial i ehangu economi'r ynys mewn modd cynaliadwy. Maent wedi cydnabod y bydd datblygu gorsaf bŵer niwclear Wylfa B, ynghyd â nifer o brosiectau'n ymwneud ag ynni a phrosiectau twristiaeth, yn cynnig cyflogaeth o ansawdd uchel yn y tymor hwy yn ogystal ag yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae'r Comisiynwyr wedi cydnabod hefyd fod y gwaith hwn yn cynnig cyd-destun gwerthfawr i gael cynghorwyr i ail-ymgysylltu â'r broses benderfynu a'u helpu i ddatblygu perthnasoedd cadarnach gydag ystod o bartneriaid.

99 Mae'n rhy gynnar i adrodd am fuddion economaidd uniongyrchol yr ymdrechion hyn. Fodd bynnag, mae datblygiadau addawol wedi bod. Ym mis Gorffennaf 2011, fe wnaeth Coleg Menai, sef y Coleg Addysg Bellach lleol, agor canolfan ynni adnewyddadwy newydd yn cynnig cyrsiau arbenigol i bobl ifanc sy'n dymuno gweithio yn y diwydiant ynni. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi lleoli un o'r ddwy Ardal Fenter newydd ar Ynys Môn gyda'r nod o ysgogi buddsoddiad a chreu swyddi.

100 Mae'r Cyngor yn adrodd am gryn dipyn o lwyddiant mewn perthynas â'i amcan gwella i ddatblygu a hybu twristiaeth, gan amcangyfrif cynnydd o chwech y cant yng ngwerth cynnyrch twristiaeth yr ynys yn ystod 2010-11. Fe wnaeth nifer yr ymwelwyr â safleoedd treftadaeth tymhorol gynyddu bron i saith y cant, a bu cynnydd o 10 y cant yn nifer yr ymwelwyr ag Oriel Ynys Môn. Mae'r Cyngor wedi adolygu'r sail resymegol am ddarparu rhai o'i amwynderau twristiaeth yn uniongyrchol, ac mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi gwneud cynigion a fyddai'n torri costau rhedeg net safleoedd treftadaeth o amcangyfrif o 30 y cant. Mae'r Cyngor wedi dechrau gweithredu rhai o'r cynigion hyn.

## Mae adolygiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2010-11 yn cydymffurfio â gofynion statudol gan mwyaf, ond mae diffyg datgan amcanion pendant ar ddechrau'r flwyddyn yn gwneud gwerthuso effeithiol yn amhosibl

101 Mae Cynllun Gwella'r Cyngor (Adolygiad Perfformiad), a gyhoeddwyd ar ddiwedd mis Hydref 2011, yn cydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 at ei gilydd, ac â'r rhan fwyaf o agweddau ar arweiniad Llywodraeth Cymru.

102 Mae'r Adolygiad yn adrodd yn gytbwys ar berfformiad y Cyngor yn ystod 2010-11 ac mae'n darparu darlun llawn a manwl o berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol. Mae Adolygiad y Cyngor hefyd yn crynhoi'n deg yr adroddiadau a gyhoeddwyd gan AGGCC a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae diffyg sylwadau dadansoddol a gwerthusol ynddo. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu felly fod y Cyngor wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ond ei fod wedi methu dangos sut yr aeth ati i ddefnyddio'r wybodaeth yn ei Adolygiad i benderfynu a oes angen iddo wella, a pha gamau y mae angen iddo'u cymryd i wella.

103 Nodom yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd mai ychydig o'r 34 o amcanion gwella'r Cyngor oedd wedi'u geirio mewn ffordd a oedd yn dweud yn eglur beth oedd y deilliannau y gallai dinasyddion ddisgwyl eu gweld. Mae'r ffaith hwn wedi gwneud tasg y Cyngor o asesu'i berfformiad yn erbyn ei amcanion gwella yn anodd. Mae ei Adolygiad yn cynnwys disgrifiad o weithgarwch yn erbyn pob amcan gwella, ac mewn rhai achosion, mae'n darparu rhywfaint o dystiolaeth o effaith y gweithgareddau hynny. Fodd bynnag, mae'r ffaith na bennwyd unrhyw ddeilliannau clir ar y cychwyn yn ei gwneud yn amhosibl i'r Cyngor neu'i ddinasyddion fesur a yw'r Cyngor wedi cyflawni'r hyn yr aeth ati i'w gyflawni ai peidio.

104 Rydym wedi gwneud cynigion ar gyfer gwella o'r blaen sy'n annog y Cyngor i bennu deilliannau clir ar gyfer ei amcanion, ac ailadroddwn yn cynnig hwn yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor sy'n datblygu yn cynnig rhywfaint o addewid y bydd amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2012-13 yn cynnwys gwell ffocws ac wedi'u datgan yn fwy eglur.

105 Mae adroddiadau chwarterol y Comisiynwyr i'r Gweinidog yn rhoi cyfle gwerthfawr a rheolaidd pellach i'r Cyngor fyfyrio ar ei gynnydd. Mae'r ddau adroddiad sydd wedi'u cynhyrchu erbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn yn rhoi asesiad teg a chytbwys o'r hyn a gyflawnwyd. Mae'r defnydd datblygol o'r fframwaith rheoli risg yn dechrau darparu modd o gofnodi ac adrodd ar y meysydd blaenoriaeth hynny lle mae pryderon, ac fel sail ar gyfer cynllunio camau cywiro.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd ag Asesiad Gwella blynyddol, ac i gyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19 i gyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 a datgan a ydyw, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, o'r farn fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr Asesiad Gwella ei lywio gan asesiad blaengar o ba mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ynglŷn â sut lwyddodd yr awdurdod i wella. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi crynodeb o gasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol am hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad amdanynt i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, a gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Fe all yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Ynys Môn a Chyngor Sir Ynys Môn

## Y Cyngor

Yn 2010-11, cyfanswm gwriant refeniw'r Cyngor oedd £154.3 miliwn. Mae hyn yn gyfwerth â rhyw £2,249 fesul preswylydd, ac mae'n agos iawn at y cyfartaledd ar gyfer cynghorau Cymru. Yn yr un flwyddyn, fe wnaeth y Cyngor wario £24.1 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yn 2010-11 ar gyfer Ynys Môn oedd £1,054.92. Mae hyn wedi cynyddu 3.74 y cant i £1,094.41 ar gyfer 2011-12 ond mae'n parhau yr ail isaf ymhlith chwe chyngor gogledd Cymru. Mae 73 y cant o'r anheddau ar Ynys Môn ym mandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 40 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 14 Annibynnol Gwreiddiol
- 8 Plaid Cymru
- 8 amhleidiol
- 5 o'r Blaid Lafur
- 5 Llais i Fôn

Ers 1 Ebrill 2011 mae pump o Gomisiynwyr, a benodwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, wedi arfer swyddogaeth weithredol y Cyngor. Y Comisiynwyr yw:

- Alex Aldridge, OBE
- Byron Davies, OBE
- Margaret Foster, OBE
- Mick Giannasi
- Gareth Jones

Mr Richard Parry Jones yw Prif Weithredwr dros dro'r Cyngor. Fe'i cefnogir gan ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol, Mr David Elis-Williams a Mr Arthur Owen, ac un Cyfarwyddwr Corfforaethol dros dro, Mr T Gwyn Jones. Mae'r Cyngor hefyd yn cyflogi Ms Gill Lewis yn rhan-amser dros dro ar gyfer absenoldeb un o'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol. Mae'r Cyngor yn cyflogi oddeutu 3,000 aelod o staff, gan gynnwys athrawon a staff eraill mewn ysgolion.

## Gwybodaeth arall

Yr Aelod Cynulliad ar gyfer Ynys Môn yw Ieuan Wyn Jones, Plaid Cymru

Yr Aelod Seneddol sy'n cynrychioli Ynys Môn yw Albert Owen, y Blaid Lafur

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor ei hun yn www.ynysmon.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW, neu drwy ffonio 01248 750057.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

Mae gan etholwyr lleol a phobl eraill hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon am y flwyddyn ariannol flaenorol, o gwmpas mis Mehefin neu fis Gorffennaf fel arfer, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd archwilio pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl trefnu eu bod ar gael. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon am y flwyddyn mae'n eu harchwilio. Er enghraifft, gallwch yn syml iawn ddweud wrth yr archwilydd os credwch fod rhywbeth yn anghywir â'r cyfrifon neu am wastraff ac aneffeithlonrwydd yn y modd y mae'r Cyngor yn rhedeg ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth gweler taflen Swyddfa Archwilio Cymru, Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu drwy ysgrifennnu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Ar 8 Rhagfyr 2011 cyhoeddwyd y llythyr canlynol gan yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

**Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn**

Fel y byddwch yn gwybod, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012, a bydd rhai o'r materion yr adroddwyd amdanynt yn draddodiadol yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi cymryd y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'r gwaith i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol yn y llythyr byr hwn, sef y Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriadwyd i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol ond fe'i cyflwynir hefyd i'r Cyngor ac i'r cyhoedd fel rhan o'r Cynllun Gwella Blynyddol, ac felly mae'n cyflawni fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio

**Ni wnaeth Cyngor Ynys Môn gydymffurfio â gofynion adrodd yn ymwneud â'i berfformiad ariannol, ac mae'r rhagolwg ariannol ar gyfer y Cyngor yn parhau'n heriol iawn**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol a'u hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Ar 16 Tachwedd 2011 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol y Cyngor. Cynhwysir f'adroddiad yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd nifer o faterion yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon eu hadrodd i aelodau yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol.

O 2010-11 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio'u cyfrifon ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Yn sgil cyflwyno'r safonau newydd hyn gosodwyd gofynion ychwanegol sylweddol ar staff cyllid y Cyngor. Yn rhannol oherwydd y pwysau ychwanegol hwn, ni pharatowyd y cyfrifon erbyn y terfyn amser statudol.

Nodwyd y materion canlynol yn ystod yr archwiliad o'r cyfrifon:

- ni ddarparwyd y cyfrifon drafft i'w harchwilio erbyn 30 Mehefin 2011 ac ni chawsant eu cymeradwyo gan y Cyngor erbyn 30 Medi 2011. Mae'r rhain yn ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd). Mae'r Cyngor yn parhau i gael anawsterau yn recriwtio i rolau cyfrifyddu allweddol;
- roedd nifer o addasiadau o gofnodion asedau sefydlog yn ofynnol o ganlyniad i waith helaeth a wnaed gan y Cyngor wrth baratoi ar gyfer IFRS;
- nodwyd nifer o gamgymeriadau yn y prisiad o asedau sefydlog lle gallai mwy o oruchwyliaeth ac adolygu leihau prisiadau yn y dyfodol ar eu cyfer; a
- chafodd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan ei hoedi o ganlyniad i'r oedi mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae f'adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y materion canlynol:

- mae'r rhagolwg ariannol yn parhau'n heriol iawn;
- roedd cynnydd o ran gweithredu trefniadau rheoli risg yn gyfyngedig yn ystod y flwyddyn;
- nid oedd cynllun adfer trychineb TG gan y Cyngor, na Chynllun Parhad Busnes ar waith yn ystod y flwyddyn;
- cafodd 33 o geisiadau am grant eu harchwilio gan PwC mewn perthynas â 2009-10, ac o'r rheiny cyflwynwyd 66% yn hwyr gan y Cyngor, ac roedd 48% yn destun llythyrau cymhwyso; a
- pharhawn i allu dibynnu ar waith Archwilio Mewnol.

Nid wyf wedi gallu cwblhau'r archwiliad am fod cwestiynau heb eu hateb a godwyd gan etholwyr yn ymwneud â gweinyddu grantiau adnewyddu. Rwyf hefyd yn ystyried pa un ai i gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd mewn perthynas ag anallu'r Cyngor i fodloni terfynau amser adrodd statudol ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon.

Disgwylir ar hyn o bryd i ffi'r archwiliad ariannol ar gyfer 2010-11 fod yn uwch nag a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol oherwydd y terfynau amser estynedig sydd ynghlwm â'r archwiliad o'r Datganiad o Gyfrifon.

Lynn Hine (PricewaterhouseCoopers LLP)

Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

Rhagfyr 2011

# Atodiau 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn

## Amcanion gwella Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2011-12

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau mae'n eu darparu. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Fe wnaeth y Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella ar gyfer 2011-12 yn ei Gynllun Busnes Corfforaethol y gellir ei weld ar wefan y Cyngor yn www.ynysmon.gov.uk. Mae'r amcanion gwella wedi'u grwpio o dan bedwar pennawd bras:

- Gweithredu Mwy Fel Busnes
- Y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy
- Gwireddu ein Cytundeb Canlyniadau
- Adnewyddu Democrataidd

Mae tudalennau 14 i 16 o'r Cynllun Busnes Corfforaethol yn cynnwys mwy o fanylion am rai o'r prosiectau sy'n dod o dan bob un o'r penawdau hyn.

## Hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn o berfformiad yn 2010-11

Cafodd amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 eu grwpio o dan bum blaenoriaeth strategol, fel a ganlyn:

**Gwella enw da'r Cyngor a'r ynys**

- Cyflawni'r prosiect arwain ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Cyflawni'r rhaglen datblygu aelodau.
- Gwella rheolaeth enw da.

**Diogelu a datblygu economi'r ynys**

- Datblygu a chyflawni'r rhaglen Ynys Ynni er mwyn hyrwyddo i'r eithaf y potensial am fuddsoddi mewnol, creu swyddi a datblygu sgiliau.
- Defnyddio ffrydiau ariannu allanol allweddol i gefnogi prosiectau adfywio.
- Datblygu a hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth.
- Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd i ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol.

**Adeiladu a chynorthwyo cymunedau cynaliadwy**

- Parhau i wella ansawdd stoc tai'r Cyngor er mwyn bodloni gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru.
- Cyflawni'r rhaglen tai fforddiadwy gyda sefydliadau partner, gan gynnwys datblygu Strategaeth Cartrefi Gwag.
- Parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau digartrefedd yn sgil galw nad oedd modd ei ragweld.
- Adolygu strwythur y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Datblygu rhaglenni gwaith gyda mwy o ffocws ar dlodi plant a sgiliau allweddol, a chynhyrchu Cynllun Partneriaeth diwygiedig ar gyfer 2011-14.
- Datblygu strategaeth i fodloni gofynion menter Llywodraeth y Cynulliad, Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, a fydd yn cynnwys y rhaglen rhesymoli ysgolion.
- Canolbwyntio ar gyfrifoldebau Rhianta Corfforaethol y Cyngor, a'i drefniadau diogelu plant.
- Parhau â ffocws ar ddysgu gydol oes er mwyn diwallu anghenion trigolion yr ynys.
- Parhau â ffocws ar wella sgiliau craidd yn unol â Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth y Cynulliad.
- Adolygu'r sail resymegol am ddarparu ystod o weithgareddau amwynder a thwristiaeth yn uniongyrchol, gan gynnwys safleoedd treftadaeth, parciau, hamdden, gwasanaethau cefn gwlad a morol.
- Parhau â ffocws ar hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog yn y Cyngor a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
- Parhau i weithredu rhaglen lleihau gwastraff, mentrau ailgylchu a threfniadau cydweithredol y Cyngor sy'n delio â gwastraff gweddilliol.
- Datblygu rhaglen lleihau carbon ac effeithlonrwydd ynni sy'n gysylltiedig â fframwaith Ynys Ynni.

**Hyrwyddo cymunedau iach, diogel a theg**

- Parhau i weithredu ystod o fentrau/rhaglenni i gynorthwyo meysydd blaenoriaeth y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2008-11 bresennol er mwyn hybu byw'n iach ar draws pob grŵp oed.
- Paratoi Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ddiwygiedig ar gyfer 2011-14.
- Ailfodelu gwasanaethau hamdden ar yr ynys.
- Cydweithio yng Ngogledd Cymru i weithredu gwasanaeth teleofal integredig ar gyfer y rhanbarth, a datblygu dewisiadau ar gyfer teledu cylch cyfyng.
- Gweithio gyda sefydliadau partner i roi'r Cynllun Partneriaeth Diogelwch Cymunedol blynyddol ar waith.

- Cyfrannu tuag at weithredu strategaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gynhwysiant cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar anweithgarwch economaidd, mynediad cyhoeddus, cynhwysiant ariannol a thlodi plant.
- Ailfodelu cyfleusterau gofal cartref, gofal preswyl a gofal dydd.

**Gwasanaethau trefnus a fforddiadwy**

- Gwella trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli prosiectau a rheoli perfformiad.
- Mentrau cydweithredol i reoli newid a gwneud defnydd gwell o adnoddau - gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau Gogledd Cymru ar y pedair rhaglen rheoli newid - Addysg, Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwasanaethau Cymorth Canolog.
- Gweithredu'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy ar draws ystod o wasanaethau er mwyn lleihau costau a chreu darpariaeth fwy addas i'r diben.
- Paratoi Strategaeth TGCh er mwyn gwella prosesau busnes, ee, rheoli dogfennau a datblygu'r wefan.
- Gwneud trefniadau i fantoli cyllideb y Cyngor gyda llai o adnoddau yn y blynyddoedd i ddod, a gweithredu strategaeth ariannol tymor canolig.
- Paratoi strategaeth rheoli risg i gryfhau trefniadau rheoli risg y Cyngor.
- Gwella rheolaeth y gweithlu fel rhan o'r prosiect datblygu pobl, gan gynnwys adolygiad trefniadol parhaus, adolygiad o Adnoddau Dynol, ac adolygiad o Gyflogau a Graddio.
- Gwneud defnydd gwell o asedau'r Cyngor a datblygu'r Cynllun Rheoli Asedau ymhellach.

Gellir gweld hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ei Gynllun Gwella (Adolygiad Perfformiad 2010-11) sydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk